

Prifysgol Bangor  
Neuaddau Preswyl

## Cydlynwyr Bywyd Campws

Mae Neuaddau Preswyl y Brifysgol wrthi'n chwilio am dîm o Gydlynwyr Bywyd ar y Campws a fydd yn cynorthwyo'r Tîm Preswyl i hwyluso gweithredu digwyddiadau Bywyd ar y Campws yn rhwydd yn ein safleoedd preswyl.

Mae Bywyd ar y Campws yn gymuned gymdeithasol a chynhwysol i holl breswylwyr neuaddau'r brifysgol, mae'n galendr o ddigwyddiadau a gynhelir yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad o feithrin cymuned breswyl glos.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ein gweithgareddau wedi cynnwys cystadlaethau coginio, nosweithiau ffilm, karaoke,

Dros y blynyddoedd diweddar, mae ein gweithgareddau wedi cynnwys cystadlaethau pobi, nosweithiau ffilm, carioci, nosweithiau dirgelwch llofruddiaeth, chwaraeon dŵr, ac ein boreau siocled poeth enwog a chinio dydd Sul - a llawer o ddigwyddiadau eraill! Mae'r tîm bob amser yn croesawu unrhyw syniadau neu awgrymiadau newydd i sicrhau llwyddiant y cynllun.

Gall cydlynwyr Bywyd ar y Campws fod yn israddedigion neu'n ôl-raddedigion, a bydd disgwyl iddynt weithio ar gyfartaledd oddeutu 40 awr y mis rhwng Medi a Mehefin; ac yn gyfnewid am hyn byddant yn cael llety am ddim mewn ystafelloedd astudio sengl yn un o'n neuaddau preswyl. (Gwerth oddeutu £5,000)

Bydd gwaith ar gael hefyd yn ystod gwyliau'r haf a bydd cyfle yn ystod y flwyddyn i'r cydlynwyr wneud cais am y swyddi hyn.

Caiff myfyrwyr ôl-raddedig aros mewn Neuaddau yn ystod cyfnod yr haf, trwy drefniant pellach.

Mae dod i raglenni hyfforddi penodol yn rhan orfodol o'r swydd.

### **GOFYNION PERSONOL - CYDLYNYDD BYWYD AR Y CAMPWS**

- Unigolyn brwdfrydig, cymdeithasol ac allblyg.
- Gallu creu perthynas â myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chymdeithasol.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Gwybodaeth am gynllunio digwyddiadau a sgiliau trefnu a rheoli amser.
- Sgiliau rhyngpersonol da gyda'r gallu i ddatblygu cysylltiadau gwaith effeithiol â chydweithwyr ar bob lefel yn y brifysgol

## **SWYDD-DDISGRIFIAD - Cydlwynwyr Bywyd ar y Campws**

Prif ddyletswyddau:

- Cynorthwyo'r Rheolwr Bywyd Preswyl, Cydlynnydd Bywyd Preswyl a'r tîm Wardeniaid i ddatblygu bywyd cylchol, bywiog a chynhwysol ar y campws.
- Monitro a diweddarau cyfryngau cymdeithasol Campws Byw, hysbysfyrddau neuaddau a'r Brifysgol.
- Cyfrannu at gynllun marchnata ac ymrwymiad Campws Byw.
- Cynorthwyo i ddatblygu digwyddiadau i wella Campws Byw, yn cynnwys themâu fel chwaraeon, cynaliadwyedd, diwylliant a chymuned.
- Hyrwyddo ein statws fel Prifysgol Werdd a chefnogi'r ymgyrchoedd amgylcheddol rydym yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.
- Recriwtio cynrychiolydd myfyrwyr ym mhob neuadd neu floc.
- Rhoi gwybodaeth i'r holl fyfyrwyr sy'n newydd i'r brifysgol ynglŷn â'r safle, y brifysgol a'r cyfleusterau cymunedol. Cynorthwyo i feithrin ysbryd cymunedol iach a chyfeillgar, hyrwyddo a chymryd rhan yng ngweithgareddau Bywyd ar y Campws.
- Rhoi cyngor a chefnogaeth fel bo'r angen, ond o fewn dyletswyddau swydd cydlynnydd Bywyd ar y Campws.
- Cofnodi pob digwyddiad, damwain neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Neuaddau Preswyl.
- Mynd i gyfarfodydd wythnosol a digwyddiadau hyfforddi a drefnwyd ar gyfer Cydlynwyr Bywyd ar y Campws.
- Ymateb i unrhyw geisiadau rhesymol gan dîm y safle preswyl.
- I ymddwyn mewn ffordd sy'n addas i gynrychiolydd o'r Tîm Bywyd Preswyl, yr adran Neuaddau a'r Brifysgol

I wneud cais, anfonwch ffurflen gais, yn amlinellu eich profiad perthnasol, i [campwsbyw@bangor.ac.uk](mailto:campwsbyw@bangor.ac.uk)

I gael mwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â Deirdre McIntyre yn [campwsbyw@bangor.ac.uk](mailto:campwsbyw@bangor.ac.uk)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 6 Chwefror 2019.

***Wedi Ymrwymo i Gyfle Cyfartal***